




Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd Canllawiau Rhieni/Dysgwyr CA5

Beth sy'n digwydd os oes
angen i ddysgwyr
hunan-ynysu?

DYSG DAWN DYFODOL



Beth sy'n digwydd os mae angen i swigen hunan-ynysu?

Bydd y canllawiau'n esbonio'r canlynol:

Beth yw hunan-ynysu?

Yr Amserlen Dysgu Cartref

Beth yw hi?

Pryd fydd yn dechrau?

Sut fydd yn gweithio?

Sesiynau 'Check In'



Beth yw hunan-ynysu?

Os mae angen i ddysgwr hunan-ynysu, mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn dweud bod angen iddynt aros cartref am gyfnod penodol o amser.

Mae dim ond 4 rheswm pam y bydd angen i ddysgwr hunan-ynysu (**cyfnod mewn coch**):

Rheswm 1: Maent yn aros am ganlyniadau prawf COVID (**2 / 3 diwrnod**)

Rheswm 2: Maent wedi profi'n gadarnhaol am COVID (**10 diwrnod**)

Rheswm 3: Maent wedi bod mewn cyswllt agos â pherson sydd wedi profi'n gadarnhaol (**14 diwrnod**)

Rheswm 4: Mae aelod o'u swigen wedi profi'n gadarnhaol (**14 diwrnod**)

#TINLLIAN

Sut fyddda i'n dysgu tra'n hunan-ynysu cartref?



Rheswm 1: Dysgwr yn aros am ganlyniadau prawf COVID (2 / 3 diwrnod)

Parhau gyda thasgau gwaith cartref/annibynnol fel arfer.

Rheswm 2: Dysgwr wedi profi'n gadarnhaol am COVID (10 diwrnod)

Bydd gweithgareddau ac adnoddau pynciol ar gael ar Google Classroom. Bydd athrawon yn arwain dysgwyr at y tasgau. Dylai dysgwyr geisio dilyn eu hamserlen arferol er mwyn helpu trefnu'u hamser cartref.

Rheswm 3: Dysgwr wedi bod mewn cyswllt agos â pherson sydd wedi profi'n gadarnhaol (14 diwrnod)

Bydd gweithgareddau ac adnoddau pynciol ar gael ar Google Classroom. Bydd athrawon yn arwain dysgwyr at y tasgau. Dylai dysgwyr geisio dilyn eu hamserlen arferol er mwyn helpu trefnu'u hamser cartref.

Rheswm 4: Aelod o swigen y dysgwr wedi profi'n gadarnhaol (14 diwrnod)

Dysgwyr yn newid i'r Amserlen Dysgu Cartref



Amserlen Dysgu Cartref

Beth yw hi?

Yn wahanol i gyfnod allweddol 3 a 4 gan bod canran helaeth o wersi CA5 yn rai dwbl mi fydd gofyn i'r dysgwyr ddilyn eu hamserlen arferol. O fewn yr amserlen hwn mi fydd 3 fath o wers:

Gweminar

Sesiynau Byw

Astudio'n Annibynnol

#TINLLIAN

Amserlen Dysgu Cartref



Beth yw Gweminar?

Mae Gweminar yn sesiwn sydd wedi'i recordio lle mae'r athro'n cyflwyno gwybodaeth ac yn gosod tasgau i'r dysgwyr eu cwblhau. Gan fod y rhain yn sesiynau sydd wedi'u recordio, gall y dysgwyr eu stopio er mwyn cymryd nodiadau ac i ateb unrhyw gwestiynau sydd wedi cael eu gosod. Os oes angen, gall y dysgwyr wyllo'r gweminar mwy nag unwaith er mwyn cynorthwyo'u dealltwriaeth ymhellach. Bydd athrawon yn arwain y dysgwyr at y sesiynau ar Google Classroom / Microsoft Teams.

Beth yw Sesiwn Byw?

Lle'n bosib bydd dysgwyr yn ymuno gyda gwersi rhithiol drwy Google Classroom / Microsoft Teams lle mae'r athro yn arwain y dysgwyr drwy'r gwaith.

Beth yw Astudio'n Annibynnol?

Astudio'n Annibynnol yw dysgwyr yn gweithio ar unrhyw dasgau sydd wedi cael eu gosod gan athrawon yn ystod gweminarau neu yn dilyn y sesiwn byw.

Lle i ddod o hyd i'r gwaith

Sut fydd yn edrych?


Ar ôl mewngofnodi i Microsoft Teams / Google Classroom mi fydd y dysgwyr yn gweld eu dosbarthiadau.



The image shows a composite of two educational technology interfaces. On the left is the Microsoft Teams app interface, featuring a dark blue sidebar with icons for Activity, Chat, Calls, Assignments, Teams, Apps, and Help. The main area displays a grid of six team tiles: 'Ffiseg BL.13' (red icon), 'Hanes BL.12' (pink icon), 'Dylunio Cynnyrch BL.12' (orange icon), 'Drama bl 13' (orange icon with masks), 'Busnes 13' (blue grid icon), and a partially visible '12 Ce' tile. On the right is the Google Classroom interface, showing two course cards. The first card, 'BL 12 - Mathemateg 2...', lists assignments: 'Due tomorrow: 1.3 Defnyddio diagramau' and 'Due Friday: 3.4 Gwerthoedd mwyaf a lleiaf ffwythiannau ... 3.3 Cwblhau'r sgwar'. The second card, 'BL12 Gwasanaethau ...', lists assignments: 'Due Friday: 23:59 - UNED 2: Aseiniad 1 - Tasg 1.1 (Mr. H...)' and 'UNED 1: Pas 1 (Mrs. Stephens)'. Both cards include icons for sharing and viewing details.


Microsoft Teams

Drwy'r tab ASSIGNMENTS mae modd gweld holl aseiniadau'r gwahanol dosbarthiadau sydd angen eu cyflawni.



Google Classrooms

Drwy'r tab TO DO mae modd gweld holl aseiniadau'r gwahanol dosbarthiadau sydd angen eu cyflawni.



Microsoft Teams

Bydd gweminarau neu cyfarwyddiadau penodol am wersi nad sy'n aseiniadau yn ymddangos yn y POSTS



General

Posts

Class Notebook

Assignments

Grades

1 more



Team

Meet



CE

Catrin Evans Yesterday 9:13 AM Edited

Gwers Dydd Llun 28.09.2020

- 1) Cwblhau gwerthuso'r esboniad cymdeithasol "Cymdeithasoli Rhyw"
 - 2) Cynllunio'r traethawd "Byddai rhai seicolegwyr yn awgrymu mai'r unig ffordd o ddeall ymddygiadau troseddol yw drwy gyfuniad o esboniadau gwahanol". Gan gyfeirio at y gosodiad hwn, gwerthuswch esboniadau o ymddygiad troseddol. Cynllun marcio ar dudalen 21 o'r llyfryn paratoi. Bydd angen cyflwyno'r traethawd erbyn dydd Gwener.
 - 3) Cyflwyno dull o addasu ymddygiad 1: Rheoli Dieter.
- Cofiwch hefyd bod aseiniad annibynnol (sef y cwestiwn uchod) yn ddyledus erbyn dydd Mercher.

[See less](#)

Google Classrooms

Bydd gweminarau neu cyfarwyddiadau penodol am wersi yn ymddangos yn y CLASSWORD

BI 12 - Mathemateg 2020-21

Stream

Classwork

People

Marks



11

Articol dan effaith disgyrchiant

Due 5 Oct



Posted 23 Sep (Edited 28 Sep)

Postiwch eich atebion wedi'u marcio i ymarfer 1.4 yma

Mae rhan b enghraifft 6 i'w gael yn y fideo isod. Gan nad oes gwers arall gyda ni yr wythnos hon, hoffwn i chi fwrw golwg drosto a cwblhau'r enghraifft yn eich llyfr nodiadau er mwyn gallu bwrw ymlaen gyda'r ymarferion.



Enghraifft 6

YouTube video 8 minutes

0

Handed in

20

Assigned

[View assignment](#)

< All teams



DC_Cymdeithaseg12

General

Diwrnod Heriau YGGLlangynwyd 24/9/2020



Nid oes gwersi ar y cyd heddiw

Diolch

← Reply

Yesterday

CE

C Evans (Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd) 9/24 8:22 AM
Scheduled a meeting



Gwersi Dydd Llun
Occurs every Monday @8:30 AM

▼ Collapse all

Microsoft Teams

Mi fydd y dysgwyr yn gallu ymuno gyda'r gwersi drwy linc yn y POSTS.
Bydd angen clicio ar y petryal porffor ac yna dewis JOIN.
Cofiwch dilyn canllawiau gwersi byw wrth ymuno â'r gwersi.



Gwersi Dydd Llun Chat Details Scheduling Assistant

× Cancel meeting

Time zone: (UTC+00:00) Dublin, Edinburgh, Lisbon, London

Meeting options



Gwersi Dydd Llun

Join

Close

Tracking

CE

C Evans (Ysgol Gyfun Gymraeg Lla...
Organizer



Miss C EVANS

16:16



Gwersi heddiw yn Meets gyda'r enw:

Seicoleg Bl.13

Google Classrooms

Mi fydd yr athro yn rhannu côd y dosbarth drwy'r STREAM ac yna bydd y dysgwr yn ymuno gyda'r wers drwy ddefnyddio'r côd hwn yn GoogleMeets.

Cofiwch dilyn canllawiau gwersi byw wrth ymuno â'r gwersi.



Use a meeting code

Nothing scheduled for today



Amserlen Dysgu Cartref

Sut fydd yn gweithio?

Bydd yr Amserlen Dysgu Cartref yn dechrau **24 awr** ar ôl i swigen blwyddyn ddechrau hunan-ynysu.

Mae hyn yn golygu os yw swigen blwyddyn yn dechrau hunan-ynysu ar **Ddydd Mawrth**, bydd yr amserlen yn dechrau ar **Ddydd Iau** yr un wythnos.

#TINLLIAN

Protocol Sesiynau Byw



Dylai dysgwyr fynychu bob sesiwn, gan wneud yn siŵr eu bod nhw'n barod i fewngofnodi ar amser ar gyfer y sesiynau gwahanol. Rhennir Côd Dosbarth ar gyfer y sesiwn ar Classroom y pwnc. Os, am unrhyw reswm, dyw'r dysgwr ddim yn gallu mynychu, dylent gysylltu â'u hathro trwy'r adran 'Private Comments' er mwyn rhoi gwybod. Cymerir cofrestr ar gyfer bob sesiwn.

Er does dim angen i ddysgwyr gwisgo gwisg ysgol i'r sesiynau, dylent wisgo'n addas. Dylent feddwl amdano fel diwrnod gwisg anffurfiol yn yr ysgol.

Mae disgwyliadau ymddygiad yn union yr un fath ag o fewn yr ystafell ddosbarth. Gallai ymddygiad annerbyniol arwain at ddysgwyr yn cael ei dynnu o'r sesiwn.

Dylai dysgwyr sicrhau eu bod nhw mewn lleoliad addas gyda chefnidir addas ar gyfer yr ysgol. Os maent yn gallu gweithio mewn ardal cyhoeddus yn y cartref, er enghraifft yr ystafell fyw/ystafell fwyta, dylent ei drefnu felly.

Dylai dysgwyr fod yn barod ar gyfer bob sesiwn, gan sicrhau bod yr holl llyfrau, nodiadau, adnoddau ac offer angenrheidiol ganddynt. Dylent hefyd sicrhau bod ganddynt ddigon o bŵer batri, gwifren pŵer, ayyb.

Dylai dysgwyr ymuno â phob sesiwn gyda'u camerâu a'u microffon wedi diffodd.

Unwaith mae presenoldeb wedi'i recordio bydd yr athro yn esbonio sut fydd y sesiwn yn rhedeg. Gofynnir i ddysgwyr cyfrannu at y sesiwn mewn ffyrdd gwahanol, yn dibynnu ar gynnwys y sesiwn. Efallai bydd angen i ddysgwr troi'r microffon ymlaen yn ystod y sesiwn.

Darperir y sesiynau hyn ar gyfer dysgwyr penodol yn unig a ni ddylid eu rhannu na'u gwyllo gan unrhywun tu hwnt i'r grŵp penodol o ddysgwyr Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, bydd pob sesiwn yn cael ei recordio.